**Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol**

**Cynnig Heb Ddyddiad Trafod a Gyflwynwyd ar 04 Gorffennaf 2002**

**NNDM1129 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol, sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu sy'n dod o dan y Ddeddf honno.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Gellir gweld Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn:
http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000036.htm